# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-14-08)

**Dyddiad: 16 Gorffennaf 2008**
**Amser: 9:03 – 9:50**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mike German, Dwyrain De Cymru
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru

#### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Claire Morris, Clerc
Annette Stafford, Dirprwy Glerc

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Estynnodd y cadeirydd groeso i bawb. Nodwyd bod Mick Bates wedi rhoi ei ymddiheuriadau, a bod Mike German yn dirprwyo ar ei ran.

### 2: Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod eitem 3

2.1 Cynigiodd y cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog Rhif 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod eitem 3, er mwyn ystyried yr adroddiad blynyddol.

2.2 Cytunodd y pwyllgor ar y cynnig ac aethpwyd i sesiwn breifat.

### 3: Trafod yr adroddiad blynyddol (yn breifat)
### RDC(3)-14-08 (p1)

3.2 Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad blynyddol y pwyllgor ac estynnodd wahoddiad i Aelodau wneud sylwadau. Byddai'r adroddiad yn cael ei drafod yn ystod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynaliadwyedd.

Agorwyd cyfarfod y pwyllgor i'r cyhoedd drachefn.

### 4: Trafod y blaenraglen waith
### RDC(3)-14-08 (p2)

4.1 Cyflwynodd y cadeirydd bapur ar y blaenraglen waith a bu'r Aelodau'n ei thrafod.

4.2 Yr oedd y blaenoriaethau a nodwyd yn cynnwys y diwydiant bwyd, y cynllun datblygu gwledig, biodanwydd, a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

4.3 Gwnaed ymrwymiad gan y cadeirydd i siarad â chadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ynghylch y gwaith a wnaed gan y pwyllgor ynglyn ag archwiliad iechyd y PAC, ac i roi adroddiad ar hynny i aelodau'r pwyllgor yn ystod yr haf.

4.4 Gwnaed cais gan Aelodau bod cymunedau yr effeithiwyd arnynt gan ad-drefnu ysgolion dros ddeng mlynedd yn ôl yn cael eu gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig. Cytunodd Mike German ac Alun Ffred Jones i ddarparu rhestr o gysylltiadau posibl i'r cadeirydd.

4.5 Cytunodd y pwyllgor i ddechrau gweithio ar y cynllun datblygu gwledig ym mis Hydref.

### 5: Ymchwiliad i dlodi am amddifadedd yn y Gymru wledig: cytuno ar yr adroddiad terfynol
### RDC(3)-14-08 (p3)

5.1 Cyflwynodd y cadeirydd yr adroddiad drafft ar dlodi ac amddifadedd yn y Gymru wledig ac estynnodd wahoddiad i Aelodau wneud sylwadau.

5.2 Cytunodd y pwyllgor ar yr adroddiad, a fyddai wedyn yn cael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd i'w gymeradwyo.